# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 5 Gorffennaf 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a’r Gyllideb*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost flynyddol ceir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y tair blynedd diwethaf mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. (WAQ56156)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Gorffennaf 2010***

Mae costau rhedeg blynyddol ceir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y tair blynedd diwethaf wedi'u nodi yn y tabl isod. Mae'r ffigurau'n cynnwys prynu cerbydau, cynnal a chadw, costau tanwydd, yswiriant, treth cerbydau, a darpariaeth casglu a thrwsio ceir. O bryd i'w gilydd, ni fydd ceir y Cynulliad ar gael ac o dan yr amgylchiadau hyn, defnyddir ceir wedi'u llogi'n breifat. Cynhwysir y costau sy'n deillio o'r defnydd achlysurol hwn yn y tabl isod.

Bu'n rhaid addasu'r adnoddau yr oedd eu hangen yn ystod ail hanner 2007/8 ar ôl cyflwyno mwy o Weinidogion â mwy o gyfrifoldebau yn sgîl darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

| Blwyddyn | Cost (£) |
|---|---|
| 2007-2008 | 240,016 |
| 2008-2009 | 155,160 |
| 2009-2010 | 177,599 |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost gwasanaethau cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. (WAQ56157)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Gweler fy ateb i WAQ55470 ac ymateb y Prif Weinidog i WAQ54825, WAQ54831, WAQ54826, WAQ54827, WAQ54828, WAQ54830, WAQ54833 a WAQ54832. Gan nad yw cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-2010 yn derfynol eto, nid yw gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag eleni ar gael eto.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost cyflogi staff asiantaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. (WAQ56158)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Cost cyflogi staff asiantaeth ym mlwyddyn ariannol 2008-09 i Lywodraeth y Cynulliad oedd £2.7m. Mae'r wybodaeth hon eisoes wedi'i darparu yn WAQ54823 lle cafodd y swm ei ddadansoddi ymhellach gan yr Adran Weinidogol. Nid yw'r gost ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/10 ar gael eto ac mae gwaith yn parhau er mwyn llunio'r costau hyn. Byddwn yn cadarnhau'r costau maes o law unwaith bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch manylion y newidiadau i TAN 6 a'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn. (WAQ56160)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Caiff Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy ei gyhoeddi yn ystod yr haf. Bydd Nodyn Cyngor Technegol 6, ynghyd â diwygiadau cysylltiedig i Bolisi Cynllunio Cymru, yn nodi rôl y system gynllunio i gefnogi'r broses o sicrhau cymunedau gwledig cynaliadwy. Byddant yn cynnwys polisi a chanllawiau cynllunio newydd ar gyfer anheddau mentrau gwledig a datblygiadau Cenedl Un Blaned. Unwaith y cânt eu cyhoeddi, bydd y polisi a'r canllawiau newydd yn ystyriaeth berthnasol wrth baratoi cynlluniau datblygu a phan gaiff penderfyniadau ar geisiadau cynllunio perthnasol eu gwneud.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Un Blaned Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ56161)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Mae Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n nodi ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy, yn seiliedig ar ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r Ddaear yn unig gan ddod yn genedl decach a mwy cyfiawn.

Datblygiad cynaliadwy yw nod strategol cyffredinol ein holl bolisïau yn Llywodraeth y Cynulliad.

Er mwyn gweithredu ar hyn rydym wedi datblygu Siarter Datblygu Cynaliadwy i alluogi sefydliadau i ymrwymo i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw eu prif egwyddor drefniadol. Lansiais y Siarter ym mis Mai eleni yng Ngŵyl y Gelli pan gofrestrwyd 22 o sefydliadau ar gyfer y fenter hon, gan gynrychioli diwydiant, addysg, awdurdodau lleol, cyrff a noddir a'r trydydd sector.

Rydym wedi mabwysiadu'r ôl troed ecolegol fel un o bum prif ddangosyddion datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
Nodir mwy o fanylion am y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i leihau ôl troed Cymru yn:

- Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a gyhoeddir ym mis Hydref.
- Tuag At Ddyfodol Diwastraff, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer rheoli gwastraff ac adnoddau yng Nghymru.
- Chwyldro Carbon Isel, Datganiad Polisi Ynni i Gymru sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i gyflymu'r trawsnewid tuag at economi effeithlon sy'n seiliedig ar ynni carbon isel yng Nghymru.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cynnydd y mae wedi'i wneud yng nghyswllt pob un o argymhellion Adroddiad 2009 y Swyddfa Archwilio ar Wasanaethau Mamolaeth. (WAQ56154)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Wasanaethau Mamolaeth ym mis Chwefror 2010, cyflwynais adroddiad ym mis Mawrth 2010, ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ymateb i'r holl argymhellion yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod a gafodd arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wario ar gynllunio i uno Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Lleol Powys. (WAQ56155)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Nid oes unrhyw arian Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael ei wario ar gynlluniau i uno Cyngor Sir Powys a BILl Addysgu Powys.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth. (WAQ56159)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Cafodd tri Phwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth rhanbarthol eu creu yn 2005, gyda chylch gorchwyl a dulliau cyflwyno adroddiadau clir.

Nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Hadroddiad ar Wasanaethau Mamolaeth a gyhoeddwyd yn 2009 nad yw'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau mamolaeth yn defnyddio eu fforymau na'u pwyllgorau presennol yn effeithiol o ran cynllunio a datblygu gwasanaethau. Er enghraifft, dim ond pedair o'r 13 ymddiriedolaeth a nododd fod gan eu pwyllgor cyswllt gwasanaethau mamolaeth gynrychiolaeth gan BILlau, a dim ond saith ymddiriedolaeth a ddywedodd fod y pwyllgor wedi rhannu argymhellion ar gyfer gwella gyda bwrdd yr ymddiriedolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cynhaliodd fy swyddogion adolygiad o'r pwyllgorau, ar ddiwedd 2009, gan nodi nad oeddent yn llwyddiannus a'u bod heb gael eu defnyddio'n ddigonol. Felly, rwyf wedi cytuno i ddirwyn y pwyllgorau rhanbarthol i ben ac wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr pob BILl yn gofyn iddynt sefydlu Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth lleol, gyda chylch gorchwyl a dulliau cyflwyno adroddiadau clir.